Ysgol Dyffryn Conwy
ysgoldyffrynconwy.org

Bwletin i Rieni / Bulletin for Parents

Medi/September 2015

Dathlu Llwyddiannau Lefel A / Celebrating A Level Successes

Dathlu Llwyddiannau TGAU / Celebrating GCSE Successes

Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid,

Dymunwn yn dda i chi a'ch plentyn ar ddechrau tymor newydd. Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth dros ddiwrnodau cyntaf y tymor, yn enwedig am eich cefnogaeth i gynllun pass bws Conwy; hefyd am sicrhau bod eich mab/merch yn dod i'r ysgol yn y wisg gywir (ceir copi o'r polisi gwisg ym mhrosbectws diweddaraf yr ysgol ar ein safwe). Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth llynedd i wella presenoldeb yr ysgol - gyda'ch cefnogaeth cyrhaeddon ni ein targed o 95%. Rydym yn falch iawn o'r disgyblion hynny lwyddodd i gyrraedd 100% o bresenoldeb dros y flwyddyn, byddent yn cael eu gwobrwyo am hyn yn y seremoni dathlu llwyddiant ar y 15fed o Fedi. Ein nod eleni yw parhau i wella ein presenoldeb - diolchwn i chi o flaen llaw am ein cefnogaeth i hyn.

Braf iawn bu croesawu ein disgyblion yn ôl wedi gwyliau'r haf, ac i weld disgyblion newydd blwyddyn 7 yn dechrau ymgartrefu yn yr ysgol. Bydd noson rieni arbennig yn cael ei chynnal ar nos Fawrth y 24ain o Dachwedd ar gyfer rhieni blwyddyn 7 efo tiwtoriaid dosbarth blwyddyn 7 ac aelodau o'r Uwch Dim Rheoli, i drafod sut y maent yn llwyddo i ymdopi a'u ysgol newydd. Yn y cyfamser, peidiwch ag oedi rhag cysylltu efo Miss Angharad Ellis, Pennaeth Dysgu a Chynnydd blwyddyn 7 neu efo fi, Mr John Roberts (Dirprwy) neu Mrs Kelly Morgan (Pennaeth Cynorthwyol Lles ac ADY).

Rydym yn hynod o falch o lwyddiant ein disgyblion yn eu arholiadau allannol eleni – cewch fwy o wybodaeth am y canlyniadau yn y bwletin hwn ac ar safwe'r ysgol, a bydd dadansoddiad pellach ar gael yn Adroddiad y Llywodraethwyr i Rieni nes ymlaen yn y tymor. Mae llawer iawn o ddisgyblion blwyddyn 11 wedi dewis dychwelyd i'r 6ed – dymunwn yn dda iawn iddynt yn eu astudiaethau; croeso cynnes hefyd i'r disgyblion sydd wedi ymuno a'r 6ed o gyffiniau pellach hefyd. Ar ôl canlyniadau Lefel A da iawn eleni mae disgwyliadau uchel iawn gennym ar gyfer ein 6ed dosbarth eto eleni.

Byddwn yn cynnal noson i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion yn eu arholiadau ac mewn nifer o feysydd eraill ar nos Fawrth y **15fed o Fedi yn** neuadd yr ysgol. Eleni, yn dilyn nifer helaeth o lwyddiannau ym maes chwaraeon, rydym hefyd yn bwriadu cynnal noson ychwanegol o ddathlu yn benodol ar gyfer llwyddiannau ym maes chwaraeon yr ysgol – manylion pellach i ddilyn yn ystod y tymor. Gallwch gadw yn gyfredol efo datblygiadau a llwyddiannau chwaraeon drwy cyfrif Twitter yr Adran Addysg Gorfforol.

Mae'r rhifyn nesaf o'r **Bont**, cylchgrawn blynyddol yr ysgol, wrthi yn cael ei goladu ac yn llawn hanesion digwyddiadau, gweithgareddau a llwyddiannau disgyblion Ysgol Dyffryn Conwy yn ystod 2014/15. Yn y cyfamser gallwch ddarllen eu hanesion ar dudalen Newyddion ein safwe.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i longyfarch Côr Hŷn Dyffryn Conwy ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn dilyn ein cyngerdd diwedd tymor arbennig a'u perfformiad yng Ngwyl Cerdd Conwy diwedd Gorffennaf. Byddent yn cymryd rhan mewn **cyngerdd Elusenol ar y 13eg o Fedi** yn Venue Cymru i gefnogi elusen Clefyd Niwronau Motor. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn i glywed y Côr yn perfformio eto ac at gefnogi yr Elusen arbennig hon.

Rwyf yn falch iawn o allu cadarnhau hefyd y bydd Mr Kevin Thomas yn cychwyn fel swyddog Rygbi yr ysgol mewn partneriaeth a Clwb Rygbi Nant Conwy, y WRU a gyda chefnogaeth ariannol gan cwmni Zip World. Edrychwn ymlaen at ddatblygiadau yn y maes dan arweinyddiaeth Mr Thomas

dros y ddwy flynedd nesaf. Byddwn hefyd yn ehangu ar ein clybiau ysgol gan gynnwys clybiau mewn meysydd newydd megis Golf, Rhedeg, Beicio Mynydd a Choginio. Mae'r rhaglen derfynol ynghlwm. Mae hyn yn ychwanegol i'n clybiau arferol fydd hefyd yn ailgychwyn yn fuan: Clwb Pysgota (bob nos Fercher o 23/9/15); Clwb Marchogaeth (llythyrau ar gael o'r Brif swyddfa), Clwb Gwaith Cartref a Gemau dyddiol, Clwb Ddrama (nos Iau) a Clwb Ffilm (amser cinio).

Bydd cyfle yn fuan hefyd ar gyfer nifer o deithiau a gweithgareddau gan gynnwys: ymweliad i Theatr Venue Cymru i weld 'An Inspector Calls' i flwyddyn 11 Llenyddiaeth Saesneg; diwrnod Sgiliau yn Venue Cymru i flwyddyn 10 a 12; a diwrnodau cyfweliadau a prentisiaeth ar gyfer blwyddyn 11. Ar ddiwedd y tymor byddwn yn cynnal Cyngerdd Carolau yng Nghapel Seion a bydd croeso cynnes i chi ymuno efo ni ar y noson arbennig hon. Mae ychydig bach o lefydd ar ôl hefyd ar daith Efrog Newydd Hydref 2016 – llythyr ar gael gan Mr Danial Meredydd; a bydd cyfle i ddisgyblion blwyddyn 10 i fyny sydd yn astudio Daearyddiaeth fynd ar ymweliad i'r Eidal ym mis Mehefin 2016 – manylion pellach gan yr Adran Ddaearyddiaeth.

Atodwn gopi hefyd o galendr yr ysgol ar gyfer 2015/16 a'n calendr asesu ar gyfer 2015/16 – mae copiau electronig ar gael ar ein safwe.

Ffurflen e-ddiogelwch ac e-ddelweddau:

Rydym newydd ddiwygio ein polisi e-ddiogelwch yn dilyn yr arweiniad diweddaraf i ysgolion. Mae copi ar gael ar tudalen Rhieni ein safwe. Gofynnwn yn garedig i chi ddarllen y polisi ac i lofnodi y ffurflen amgaeedig. Mae ffurflen hefyd i'ch mab/merch ei lenwi. Byddwn yn awyddus i gael y ffurflenni yn ol i'r brif swyddfa erbyn dydd Gwener y 18fed o Fedi. Diolchwn o flaen llaw i chi am ein cefnogi ni efo hyn.

Gwybodaeth cysylltu:

Er gwybodaeth, rydym wedi diweddaru ein system ffôn mewnol. Bellach bydd cyfle i chi ddewis at bwy rydych angen cyfeirio eich ymholiad gan gynnwys cysylltu i hysbysu am absenoldeb plentyn neu i drafod efo Pennaeth Cynorthwyol neu aelod o'r tîm bugeiliol. Gallwch hefyd gysylltu yn uniongyrchol drwy ebost:

Ebost cyffredinol yr ysgol: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk
Ebost swyddog presenoldeb yr ysgol: sp@dyffrynconwy.conwy.sch.uk.

Rydym wedi cychwyn diweddaru a diwygio ein safwe. Bydd ychwanegiadau pellach gan gynnwys gwybodaeth am arholiadau allannol yn cael ei ychwanegu dros yr wythnosau nesaf. Er gwybodaeth mae'r fersiwn diweddaraf o'n prospectws ysgol newydd ei ychwanegu at y safwe.

Safwe Ysgol Dyffryn Conwy: http://www.ysgoldyffrynconwy.org/rhieni.html

Mae gwybodaeth bellach megis polisiau'r ysgol a materion cyfrinachol yn cael eu cadw ar ein wefan ddiogel – enw defnyddiwr a cyfrinair ar gael gan swyddfa'r ysgol.

I gloi, dymunaf flwyddyn addysgol arbennig iawn i'ch plentyn. Edrychaf ymlaen at gydweithio efo chi fel rhieni ac at rannu a dathlu llwyddiannau ein disgyblion dros y flwyddyn nesaf.

Elan Wyn Davies, Pennaeth, 9/09/15.

PIGION YDC – Dathlu llwyddiant mewn arholiadau allannol

Dathlu llwyddiant Lefel A 2015, Ysgol Dyffryn Conwy – 13/08/15

Rydym yn falch iawn unwaith eto o berfformiad arbennig ein disgyblion yn eu cyrsiau AS a Lefel A. Mae'n canlyniadau eleni yn parhau i ddangos cynnydd mewn cyrsiau Lefel A, cyrsiau Galwedigaethol ac yn benodol eleni'r Fagloriaeth Gymreig – blwyddyn dda iawn! Ymysg ein perfformwyr rhagorol eleni mae: Aaron Kirkman (A*A A A B), Lois Evans (A* A A), ieithydd Viktor Hewitt (AAAB), Tolly Taylor (A*A B), Wil Jones (AAB), Iestyn Thomas (A*B B B), Talia Williams (A A C) ac Ynyr Jones (A*B C). Fel y gwelwch, mae perfformiad ein bechgyn wedi bod yn gryf iawn eleni. Llongyfarchiadau mawr i'n disgyblion. Hoffwn hefyd gymryd y cyfle, ar ran yr ysgol a'i Llywodraethwyr i longyfarch y disgyblion a'u teuluoedd, a hefyd ein staff ymroddedig am eu holl waith caled ac ymrwymiad.

Dymunwn bob lwyddiant i'r disgyblion yn y dyfodol ac edrychwn ymlaen at glywed eu hanesion, eu llwyddiant a'u dyfodol boed hynny ym myd addysg bellach/addysg uwch, ac ym myd gwaith i'r dyfodol.

Canlyniadau TGAU 2015: 20/8/15

Mae Ysgol Dyffryn Conwy unwaith eto yn dathlu blwyddyn o ganlyniadau rhagorol. Rydym yn hynod falch o'n disgyblion a'u llwyddiannau, ac ar ran yr ysgol gyfan rydym yn eu llongyfarch nhw a'u teuluoedd ar y canlyniadau gwych! Mae eu llwyddiant yn llwyr haeddiannol. Rydym yn falch iawn o fod wedi croesawu llawer o'r disgyblion yn ol i'r 6ed dosbarth.

Unwaith eto mae nifer o'n disgyblion wedi cyrraedd yr uchelfannau yn eu canlyniadau, gan gynnwys Tomos Arfon 8A*a 3A; Hannah Jones 7 A*, 4A; Russell Wingfield 4A*, 1A, 4B – cafodd y 3 hefyd Rhagoriaeth mewn Mathemateg Ychwanegol; Jake Jones 4 A*, 4A, 2 B a 2 C; Sophia Dallimore 2A*, 5A a 4B; Charlotte Wright 2 A*, 5 A, 2 B, 1 C a Rhagoriaeth mewn Mathemateg Ychwanegol; Annest Jones 6A, 3 B, 1 C; Meirion Layton 4A, 4B a 2C. Yn y llun mae Hannah, Sophia, Charlotte, Russell, Jake a Annest. Bu Tomos yn dathlu ar ddiwedd ebost o'i wyliau yn Sbaen!

Ar ddiwedd fy mlwyddyn gyntaf fel pennaeth roeddwn yn hynod falch o weld yr holl wynebau hapus sy'n cadarnhau'r hyn mae llwyddiant yn ei olygu i'n pobl ifanc, pa mor galed maen nhw wedi gweithio. Maent yn llawn haeddu eu llwyddiant! Rwyf yn eu llongyfarch nhw a'u teuluoedd. Hoffwn hefyd gymryd y cyfle i ddiolch i'n holl staff am eu gwaith caled parhaol. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un gwych ac arbennig i'r ysgol, ei disgyblion a'r gymuned ehangach. Fel mae hi bob blwyddyn bu'r diwrnod canlyniadau yn ddiwrnod i'r disgyblion, eu llwyddiannau, a'u camau nesaf - mae digon i'w ddathlu. Dymunaf yn dda iddynt yn eu dyfodol!

PWYSIG – GOFYNNWN I CHI LOFNODI Y FFURFLENNI CANLYNOL A'U DYCHWELYD I'R YSGOL ERBYN DYDD GWENER 18/9/15:

FFURFLEN DEFNYDD DERBYNIOL MYFYRWYR / DISGYBLION

Mae'r ffurflen hon yn gysylltiedig â'r Cytundeb Defnydd Derbyniol *myfyrwyr / disgyblion,* ac mae wedi'i hatodi wrth y ddogfen honno.
Llenwch yr adrannau isod os gwelwch yn dda i nodi eich bod wedi darllen a deall ac yn cytuno â'r adrannau sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Defnydd Derbyniol. Os na fyddwch yn llofnodi a dychwelyd y cytundeb hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio systemau a TGCh yr ysgol.

Rwyf wedi darllen ac rwy'n deall yr uchod ac rwy'n cytuno i ddilyn y canllawiau hyn:

- Pan fyddaf yn defnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol (yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol)
- Pan fyddaf yn defnyddio fy nyfeisiau fy hun yn yr ysgol (pan ganiateir i mi wneud hynny) e.e. ffônau symudol, dyfeisiau chwarae gemau, camerâu ac ati
- Byddaf yn defnyddio fy offer fy hun oddi allan i'r ysgol mewn modd sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r ysgol hon, e.e. cyfathrebu ag aelodau eraill yr ysgol, defnyddio system e-bost, rhith-amgylchedd dysgu neu wefan yr ysgol, ac ati.

Enw'r Myfyriwr / Disgybl	
Grŵp / Dosbarth	
Llofnod	
Dyddiad	

Cytundeb Defnydd Derbyniol Rhieni / Gofalwyr

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan anhepgor o fywydau plant a phobl ifanc, o fewn yr ysgol a'r tu allan. Mae'r technolegau yma yn darparu teclynnau pwerus, sydd yn rhoi cyfleoedd newydd i bawb. Gallant ysgogi trafodaeth, hyrwyddo creadigrwydd ac ysgogi ymwybyddiaeth o gyd-destun i hyrwyddo dysgu effeithiol. Dylai pobl ifanc gael hawl i fynediad diogel i'r rhyngrwyd drwy'r adeg.

Diben y Polisi Defnydd Derbyniol yma ydy i sicrhau:

- bod pobl ifanc yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau cyfathrebu fel arall ar gyfer defnydd addysgiadol, personol a hamddenol.
- bod systemau'r ysgol a'r defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn o gamddefnydd damweiniol neu bwrpasol gall roi diogelwch y systemau a'r defnyddwyr mewn perygl.
- bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd e-Ddiogelwch ac yn cymryd rhan yn addysgu ac arwain pobl ifanc yn eu hymddygiad ar-lein.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod myfyrwyr / disgyblion yn cael mynediad da i dechnolegau digidol i fwyhau eu dysgu a fydd, yn ei dro, yn disgwyl i'r myfyrwyr / disgyblion i gytuno bod yn ddefnyddwyr cyfrifol. Mae copi o Gytundeb Defnydd Derbyniol Myfyriwr / Disgybl wedi'i atodi i'r ffurflen ganiatâd yma, fel bod rhieni / gofalwyr yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r ysgol o bobl ifanc yn eu gofal.

Mae disgwyl i rieni arwyddo'r ffurflen ganiatâd isod i ddangos eu cefnogaeth o'r ysgol yn yr agwedd bwysig yma o'u gwaith.

Ffurflen Caniatâd

Enw Rhiant / Gofalw _____ **Enw Myfyriwr / Disgybl** _____

Fel rhiant / gofalwr o'r *myfyriwr / disgybl* uchod, rwyf yn rhoi caniatâd i'm mab / merch gael mynediad i'r rhyngrwyd ac i systemau TGCh yn yr ysgol

Rwyf yn gwybod bod fy mab / merch wedi arwyddo Cytundeb Defnydd Derbyniol ac wedi derbyn, neu am dderbyn, addysg e-Ddiogelwch i'w helpu i ddeall pwysigrwydd defnydd diogel o dechnoleg a'r rhyngrwyd - y tu mewn ac oddi allan i'r ysgol.

Arwyddwy _____ **Dyddiad** _____

Defnydd Delweddau Digidol / Fideo

Efallai bydd delweddau hefyd yn cael eu defnyddio i ddathlu llwyddiannau wrth gyhoeddi hynny mewn cylchlythyrau, ar wefan yr ysgol ac, ar brydiau, yn y cyfryngau cyhoeddus.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Diogelu Data ac yn gofyn caniatâd rhieni / gofalwyr cyn tynnu lluniau o aelodau'r ysgol. Byddem hefyd yn sicrhau pan fydd delweddau yn cael eu cyhoeddi, nad all adnabod y bobl ifanc wrth ddefnyddio eu henwau.

Mewn cytundeb ag arweiniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae croeso i rieni / gofalwyr dynnu delweddau fideo a digidol o'u plant mewn digwyddiadau'r ysgol ar gyfer defnydd personol (gan nad yw'r fath ddefnydd yn cael ei grybwyll yn y Ddeddf Diogelu Data). I barchu preifatrwydd pawb, ac mewn rhai achosion i amddiffyn, ni ddylai'r delweddau yma gael eu cyhoeddi / gwneud yn gyhoeddus ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol, ac ni ddylai rhieni / gofalwyr wneud sylwad ar unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys myfyrwyr / disgyblion yn y delweddau digidol / fideo.

Gofynnir i rieni / gofalwyr arwyddo'r ffurflen caniatâd isod i ganiatáu'r ysgol i gymryd a thynnu delweddau o'u plant ac i'r rhieni / gofalwyr gytuno.

Ffurflen Caniatâd Delweddau Digidol / Fideo

Enw Rhiant / Gofalwr

Enw Myfyriwr / Disgybl

Fel rhiant / gofalwr y myfyriwr / disgybl uchod, rwyf yn cytuno i'r ysgol gymryd a defnyddio delweddau digidol / fideo o'm mhlentyn / plant. Rwyf yn deall mai dim ond i gefnogi gweithgareddau dysgu neu mewn cyhoeddusrwydd sydd yn dathlu llwyddiant ac yn hyrwyddo gwaith yr ysgol yn rhesymol defnyddir y delweddau yma.

Ydw/

Nac ydw

Os ydw i'n tynnu delweddau digidol neu fideo mewn, neu o, - ddigwyddiadau'r ysgol sydd yn cynnwys delweddau o blant, heblaw am rai fi, rwyf yn cytuno byddaf yn cadw i'r canllawiau yma wrth ddefnyddio'r delweddau.

Ydw/

Nac ydw

Arwyddwyd

Dyddiad

Dear Parent/Guardian,

I would like to wish you and your child a good start to the new term. Thank you for your support during the first few days, particularly in supporting with Conwy's 'no pass – no bus' scheme; with ensuring that your son/daughter has come to school in the correct uniform (copies of the school uniform policy can be found in the school prospectus on our website and in your child's homework planner). I thank you also for your support in helping the school improve its attendance record – with your support we reached last year's target of 95% attendance. We are very proud of the 100% attendance of a number of our pupils who will be rewarded during our Awards Ceremony on the 15th of September. Our aim this year is to continue to improve our attendance percentage – I thank you in advance for your continued support.

It's been a pleasure to welcome our pupils back after their summer break and to see our new year 7s enjoying the warm weather we have had this week and beginning to settle in to the routine of lessons. There will be an additional parents' evening for year 7 parents on the 24th of November, an opportunity to discuss your son/daughter's progress with their form tutor/members of the Senior Leadership Team, and to discuss how they have settled in to their new school. In the meantime please contact Miss Angharad Ellis, Year 7 Progress Leader or a member of the Senior Leadership (myself, Mr John Roberts, Deputy Head or Mrs Kelly Morgan, Pastoral Assistant Head) if you have any concerns.

We are also extremely delighted with our pupils' success in their external examinations this year – further information can be found later in this bulletin and on our website. There will also be information included in the Governors' Report to parents which will be released later this term. We are glad that many of our year 11 pupils have now returned to the 6th form – we wish them well in their studies; a warm welcome too to the pupils who have joined us from outside our catchment area. After some very good A level results this summer we have very high expectations for this year's 6th form.

We will be holding our annual **Awards Ceremony on the 15th of September** where we will be awarding pupils following GCSE, AS and A Level success and other awards including 100% attendance and high achievement in the end of Key Stage 3 Assessments and National Tests. This year, after a very successful sporting year we also plan to hold a Sports Award Evening in the new year. Further information will follow later this term. You can keep abreast of our sporting successes through the PE department's Twitter feed and through our website.

The next edition of the **Bont** magazine is currently being collaged to include the full stories of last year's events and success stories. In the meantime read about the success stories of our pupils on our website.

I would like to take this opportunity to congratulate the Senior Choir on their achievement in the National Eisteddfod this Summer. This follows a wonderful end of term concert and a celebrated performance on the last night of the Conwy Music Festival. The choir will also be performing this Sunday **(13th of September**) at Venue Cymru as part of a concert in aid of the Neurone Disease Association. We invite you to join us to watch the choir perform and to support this national charity.

I am also particularly delighted to announce that Mr Kevin Thomas will be starting as our School Rugby Officer on the 21st of September. The post is funded by the WRU, our generous sponsor Zip World and Nant Conwy. We look forward to the development of the sport through Mr Thomas' leadership over the next two years. We will also be able to expand our extracurricular clubs to include new sports such as Golf, Running, Mountain Biking/Adventurous Sport and Baking. The draft programme of activities is enclosed. This adds to our usual clubs: Fishing (every Wednesday evening from the 23/9/15); Equestrian Club (letters available from the school office); daily homework and games club; Drama Club (Thursday evenings); and Film Club (lunchtimes).

Forthcoming extracurricular activities also include: a visit to see 'An Inspector Calls' at Venue Cymru for year 11; a Skills Day at Venue Cymru for years 10 and 12; and interview and Apprenticeship days for year 11. We will be holding a Christmas Carol Service in Capel Seion at the end of term – a warm welcome to you all. There are also a small number of places available for the New York Trip October 2016 – further information from Mr Danial Meredydd; and there will be an opportunity for pupils in year 10 and above to join the Geography Department for an educational trip to Italy – further information from the Geography department.

A copy of this year's assessment calendar is included below and available on our website.

E-safety consent form and e-safety policy:

We have recently updated our e-safety policy following the latest guidance for schools. A copy is available on the Parents' section of the website. We ask that you read the policy and sign the attached forms. There is also a form for your son/daughter to complete. We would appreciate the forms being returned to the main office by Friday the 18th of September. We thank you in advance for supporting us with this.

Contact information:

We have recently updated our internal phone system. It is now possible for you to choose from a menu who you need to speak to, including contacting our attendance officer regarding any absences, or our pastoral team.

You can also contact the school directly through using the following email addresses:

School central email address: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk
Attendance officer email: sp@dyffrynconwy.conwy.sch.uk.

We have begun to update and adapt our school website. Further additions including information about external examinations will be added over the next few weeks. The latest version of the school prospectus has also been uploaded to the website.

School Website: http://www.ysgoldyffrynconwy.org/rhieni.html

Further information e.g. school policies and confidential information can be found on our secure website – username and password available from the school office.

To close, I wish your child a good academic year and look forward to working with you as parents, sharing and celebrating your child's successes over the next year.

Elan Wyn Davies, Head, 9/09/15.

YDC HIGHLIGHTS – Celebrating examination success

Celebrating Success - Ysgol Dyffryn Conwy A Level Results, 2015 - 13/8/15

We are all delighted that Ysgol Dyffryn Conwy pupils have once again performed exceptionally well and we are all very proud of their achievements. This year's results show continued success in Advanced Level, Vocational A Levels and BTECs, as well as the Welsh Baccalaureate – a very good year! Among our number of high achievers this year are Aaron Kirkman (A*A A A B), Lois Evans (A* A A), linguist Viktor Hewitt (AAAB), Tolly Taylor (A*A B), Wil Jones (AAB), Iestyn Thomas (A*B B B), Talia Williams (A A C) and Ynyr Jones (A*B C). The boys have been particularly successful this summer!

I would also like to take this opportunity on behalf of the School and its Governors to congratulate all pupils their parents and families, and all of our staff for their continued hard work and dedication.

We wish all our students every success in the future and look forward to tracking their achievement through University, further study and their future careers.

GCSE Results 2015: 20/8/15

Ysgol Dyffryn Conwy are once again celebrating another year of excellent results. We are all proud of our pupils and on behalf of the whole school we congratulate all pupils and their families on their success – it's richly deserved after all their hard work. We are delighted to have welcomed many of our pupils back to the 6th form.

Once again a number of pupils have achieved at the very highest including: Tomos Arfon 8 A*,3A; Hannah Jones 7 A*, 4 As; Russell Wingfield 4 A*, 1 A, 4 B – all three also received a Distinction in Additional Maths; Jake Jones 4 A*s, 4 As, 2 Bs and 2 Cs; Sophia Dallimore 2 A*, 5 As and 4 Bs; Charlotte Wright 2 A*, 5 As, 2 Bs, 1 C and Distinction in Additional Maths; Annest Jones 6As, 3 Bs, 1 C; Meirion Layton 4As, 4 Bs and 2 Cs. Pictured are Hannah, Sophia, Charlotte, Russell, Jake and Annest. A delighted Tomos heard the news by email from his holiday in Spain!

At the end of a successful first year at the helm, I was delighted to see so many smiles, a reminder of what success means to our young people and how hard they have worked and deserved it. I congratulate all of them and all their families. It really has been a wonderful year for everyone associated with the school. I wish them all the best for the future. I would also like to thank all my staff for all their hard work.

IMPORTANT : Please complete the forms on the following pages and return them to the school by Friday the 18th of September.

STUDENT / PUPIL ACCEPTABLE USE AGREEMENT FORM

This form relates to the *student / pupil* Acceptable Use Agreement, to which it is attached. Please complete the sections below to show that you have read, understood and agree to the rules included in the Acceptable Use Agreement. If you do not sign and return this agreement, access will not be granted to school ICT systems.

I have read and understand the above and agree to follow these guidelines when:

- I use the school systems and devices (both in and out of school)
- I use my own devices in the school (when allowed) eg mobile phones, gaming devices, cameras etc
- I use my own equipment out of the school in a way that is related to me being a member of this *school* eg communicating with other members of the school, accessing school email, VLE, website etc.

Name of Student / Pupil	
Group / Class	
Signed	
Date	

PARENT / CARER ACCEPTABLE USE AGREEMENT

Digital technologies have become integral to the lives of children and young people, both within schools and outside school. These technologies provide powerful tools, which open up new opportunities for everyone. They can stimulate discussion, promote creativity and stimulate awareness of context to promote effective learning. Young people should have an entitlement to safe internet access at all times.

THIS ACCEPTABLE USE POLICY IS INTENDED TO ENSURE:

- that young people will be responsible users and stay safe while using the internet and other communications technologies for educational, personal and recreational use.
- that school systems and users are protected from accidental or deliberate misuse that could put the security of the systems and users at risk.
- that parents and carers are aware of the importance of e-Safety and are involved in the education and guidance of young people with regard to their on-line behaviour.

The school will try to ensure that *students / pupils* will have good access to digital technologies to enhance their learning and will, in return, expect the *students / pupils* to agree to be responsible users. A copy of the Student / Pupil Acceptable Use Agreement is attached to this permission form, so that parents / carers will be aware of the school expectations of the young people in their care.

Parents are requested to sign the permission form below to show their support of the school in this important aspect of the school's work.

PERMISSION FORM

Parent / Carers Nar **Student / Pupil N**

As the parent / carer of the above *students / pupils*, I give permission for my son / daughter to have access to the internet and to ICT systems at school.

I know that my son / daughter has signed an Acceptable Use Agreement and has received, or will receive, e-Safety education to help them understand the importance of safe use of technology and the internet – both in and out of school.

Signed **Date**

USE OF DIGITAL / VIDEO IMAGES

The use of digital / video images plays an important part in learning activities. Students / Pupils and members of staff may use digital cameras to record evidence of activities in lessons and out of school. These images may then be used in presentations in subsequent lessons.

Images may also be used to celebrate success through their publication in newsletters, on the school website and occasionally in the public media,

The school will comply with the Data Protection Act and request parents / carers permission before taking images of members of the school. We will also ensure that when images are published that the young people cannot be identified by the use of their names.

In accordance with guidance from the Information Commissioner's Office, parents / carers are welcome to take videos and digital images of their children at school events for their own personal use (as such use in not covered by the Data Protection Act). To respect everyone's privacy and in some cases protection, these images should not be published / made publicly available on social networking sites, nor should parents / carers comment on any activities involving other *students / pupils* in the digital / video images.

Parents / carers are requested to sign the permission form below to allow the school to take and use images of their children and for the parents / carers to agree.

DIGITAL / VIDEO IMAGES PERMISSION FORM

Parent / Carers Name	
Student / Pupil Name	

As the parent / carer of the above *student / pupil*, I agree to the school taking and using digital / video images of my child / children. I understand that the images will only be used to support learning activities or in publicity that reasonably celebrates success and promotes the work of the school. Yes / No

I agree that if I take digital or video images at, or of, – school events which include images of children, other than my own, I will abide by these guidelines in my use of these images. Yes / No

Signed	
Date	

Ysgol Dyffryn Conwy
ysgoldyffrynconwy.org

Calendr Gweithgareddau Allgyrsiol - Drafft / Draft Extra-curricular Activities Calendar –

Hydref / Autumn 2015

GWEITHGAREDDAU AMSER CINIO / LUNCH TIME ACTIVITIES: o wythnos/from the week beginning 21/9/15

LLUN / MON	MAWRTH / TUES	MERCHER / WED	IAU / THURS	GWENER / FRIDAY
PELDROED/FOOTBALL A RYGBI/RUGBY	PELDROED/FOOTBALL A RYGBI/RUGBY	PELDROED/FOOTBALL A RYGBI/RUGBY	PELDROED/FOOTBALL A RYGBI/RUGBY	
	CLWB FFILM / FILM CLUB		CLWB FFILM / FILM CLUB	
CLWB GWAITH CARTREF CA3 / KS3 HOMEWORK CLUB – [C2 1.10 – 1.40]	CLWB GWAITH CARTREF CA3 / KS3 HOMEWORK CLUB - [C2 1.10 – 1.40]	CLWB GWAITH CARTREF CA3 / KS3 HOMEWORK CLUB - [C2 1.10 – 1.40]	CLWB GWAITH CARTREF CA3 / KS3 HOMEWORK CLUB - [C2 1.10 – 1.40]	CLWB GWAITH CARTREF CA3 / KS3 HOMEWORK CLUB - [C2 1.10 – 1.40]
SYRGERI NYRS YSGOL	CEFNOGAETH ANNOGWR DYSGU CA4 / KS4 LEARNING COACH DROP IN	CEFNOGAETH ANNOGWR DYSGU CA4 / KS4 LEARNING COACH DROP IN	'DROP IN' CWNSELYDD YSGOL / SCHOOL COUNSELLOR	

GWEITHGAREDDAU OL YSGOL / AFTER SCHOOL ACTIVITIES: DRAFFT

LLUN / MON	MAWRTH / TUES	MERCHER / WED	IAU / THURS
Trampolinio *Trampolining** Wall Ddringo *Climbing Wall** Boxercise (Merched/Girls) Girls' Football	Pel Droed *Football** (Bl./Yr. 7, 8 a 9) Ymarfer gwrthiant *Resistance Training** (Bl./Yr/ 10 – 13) Cylched/*Circuit* (Merched / Girls) 'Clwb Coginio Mawreddog Dyffryn Conwy / *Dyffryn Conwy Bakeoff Club'*	CLWB PYSGOTA *FISHING CLUB* Pilates (Merched / Girls) Pel Rwyd / *Netball*	CLWB DRAMA *DRAMA CLUB* Gymnasteg / *Gymnastics** Karate GOLFF

Bydd hysbysebion yn cael eu dangos o amgylch yr ysgol. Os na nodir yn wahanol rhwng 3.45 a 4.45 y.p. fydd y gweithgareddau yn cael eu cynnal. / *Notices of the clubs will be displayed around the school. Unless noted differently, the clubs will take place between 3.45 and 4.45 pm.*

I'w Cadarnhau: Clwb Rhedeg, Clwb Beicio Mynydd/Antur, 3 noson o weithgareddau rygbi (bechgyn a merched). */ **To be confirmed:** Running club, Mountain Biking/Adventure Club, 3 evenings of rugby activities (boys and girls).*

*Gofynnwn am gyfraniad o £1 - £1.50 tuag at y gweithgareddau hyn. */ We ask for a contribution of £1 - £1.50 towards the costs of these activities.*

Ysgol Dyffryn Conwy
ysgoldyffrynconwy.org

CALENDR ADRODD I RIENI 2015/16 REPORTING TO PARENTS CALENDAR:

BLWYDDYN / YEAR	ADRODDIAD INTERIM REPORT	ADRODDIAD LLAWN / FULL REPORT	NOSON RHIENI / PARENTS' EVENING	Profion ac arholiadau / Exams and tests
7	24/11/15	14/06/16	24/11/15 21/06/16	Profion Llythrennedd a Rhifedd / Literacy and Numeracy Tests:25/04/16 – 13/05/16
8	18/12/15	15/07/16	22/03/16	Profion Llythrennedd a Rhifedd / Literacy and Numeracy Tests:25/04/16 – 13/05/16
9	08/12/15	12/07/16	08/12/15 + noson opsiynau blwyddyn 9 / Yr 9 options evening 01/03/16	Profion Llythrennedd a Rhifedd / Literacy and Numeracy Tests:25/04/16 – 13/05/16
10	18/12/15	24/03/16	12/04/16	Arholiadau Allannol mewn rhai pynciau / External examinations in some subjects: 13/05/16 – 21/06/16
11	6/10/15	19/1/16	19/1/16 + noson agored y 6ed dosbarth / 6th form open evening – 26/1/16	Ffug Arholiadau – 4-16/12/15 Allannol / External: 13/05/16 – 21/06/16
12	24/11/15	9/02/16	9/02/16	Ffug Arholiadau – 4-16/12/15 Allannol / External: 13/05/16 – 21/06/16
13	10/11/15	9/2/16	10/11/15	Ffug Arholiadau – 4-16/12/15 Allannol / External: 13/05/16 – 21/06/16

Byddwn yn anelu i sicrhau fod yr adroddiadau eich plentyn yn eich cyrraedd unai drwy law eich plentyn, gyfarfod rhieni neu os nad yw hynny yn bosib, post allannol ar neu yn agos at y dyddiadau uchod. / We will aim to ensure that your son/daughter's report reaches you either through your child, a parents' evening or if that is not possible through the external post on or around the dates above. Bydd nosweithiau rhieni yn cael eu cynnal ar nos fawrth / Parents' evenings will be held on Tuesday evenings.